AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO

CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO

Awdurdodir y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir i weithredu ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wrth gyflawni'r swyddogaethau yn ymwneud â chynllunio gwlad a thref a roddwyd i'r Awdurdod gan Ddeddfwriaeth ac yn gyffredinol fel Awdurdod Cynllunio Lleol.

Gellir ymarfer pwerau dirprwyol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir gan unrhyw swyddog ar ei ran/rhan yn unol â chyfarwyddyd cyffredinol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir.

Ni ddylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir weithredu o dan y pwerau dirprwyol hyn:

1. Petai'r penderfyniad, ym marn y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir, yn mynd yn groes i'r polisïau yn y Cynllun Datblygu yn sylweddol

2. Petai corff statudol yr ymgynghorir ag ef (e.e. Awdurdod Priffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru ayb) neu Gyngor Cymuned yn mynegi barn sy'n groes i'r argymhelliad, yn seiliedig ar resymau cynllunio cadarn, ac a gafwyd o fewn y cyfnod ymgynghori, oni bai bod estyniad wedi ei gytuno gyda'r gwasanaeth cynllunio [1].

3. Petai Aelod o'r Awdurdod yn gwneud cais ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ystyried y mater o fewn y cyfnod ymgynghori, oni bai bod estyniad wedi ei gytuno gyda'r gwasanaeth cynllunio, ond dylid rhoi rhesymau cadarn cynllunio dros ofyn am "alw ceisiadau i mewn" i'r Pwyllgor.[1]

4. Petai'n wybyddus fod gan aelod o staff ddiddordeb personol yn y cais.

5. Pe gyflwynir y cais gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu fe'i gwneir mewn perthynas â thir sy'n eiddo i neu a feddiannir gan yr Awdurdod ag eithrio lle mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir yn cysidro'r cais fel un am amrywiad bach i ganiatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes.

6. Petai'r cais yn un mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir yn ystyried sydd yn Ddatblygiad Mawr neu fod angen Datganiad Effaith Amgylcheddol arno.

7. Petai'r penderfyniad yn groes i gyngor cyfreithiol neu gyfarwyddyd y Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid.

8. Petai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir o'r farn y byddai'n fwy priodol cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad i'w benderfynu.

[1] Ni fydd y ddarpariaeth hon yn gymwys i geisiadau am Dystysgrifau Defnydd Cyfreithlon. Mae "Tystysgrifau Defnydd Cyfreithlon" yn golygu tystysgrifau sy'n unol â cheisiadau a wnaed o dan Adrannau 191 neu 192 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Rhaid cofnodi'r holl benderfyniadau a wneir o dan y cynllun dirprwyo hwn yn ysgrifenedig a rhaid i'r cofnod gynnwys manylion y polisïau a'r materion perthnasol a ystyriwyd, a'r rheswm dros y penderfyniad.

Mae'n rhaid adrodd yr holl benderfyniadau sy'n rhoi neu'n gwrthod caniatâd cynllunio, Tystysgrifau Defnydd Cyfreithlon neu Orfodi, Rhybuddion Atal neu Rybuddion Tor-amod a gymerir neu a gyflwynir o dan y cynllun dirprwyo hwn i gyfarfod hwylus nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

Pan fo enw'r swydd yn cael ei newid, neu os yw ei swyddogaethau perthnasol yn cael eu breinio mewn swydd wahanol, rhaid i unrhyw bwerau dirprwyedig sy'n meddu ar y swydd gael eu cadw gan y swydd a enwir neu ei drosglwyddo i'r swydd wahanol sut bynnag fydd hi. Mae hyn yn cynnwys unrhyw bwerau dirprwyedig a freiniwyd mewn swydd trwy benderfyniad yr Awdurdod neu Bwyllgor / Is-bwyllgor.